WG35.5.97

# ER COF AM

# Mrs. Elizabeth Jones,

## ABERGWENLLAN FARM, GER LLANOVER,

### Yr hon a hunodd yn yr Iesu, Ebrill 20fed, 1891,

### YN 56 MLWYDD OED.

---

HEN rwygwr rhyfeddol yw angau yn para,
Dattoda'r cylymau agosaf y sydd,
A thora undebau cadarnaf y ddaear,
A'r gân droir yn wylo lle bynag y bydd;
Bu fferm Abergwenllan, yn ardal Llanover,
Un amser yn gartref dedwyddwch, a chân;
Ond angau ddaeth yno i dalu ymweliad,
A'r llonder hapusawl ddarfyddodd yn lân.

Ow! olwg brwddglwyfus yn Mynwent Llanover,
Dwfn dristwch deyrnasa yn awr ar bob gwedd,
Y wraig hoff, ofalus, a'r fam dyner-galon,
Osodir i orwedd yn ngwely y bedd;
JOHN JONES welir yna'n alarus ei deimlad,
'Rol colli cydmares a garai mor fawr,
A phump o blant anwyl mewn galar gorlethol,
Yn wylo 'rol colli mam dirion yn awr.

O angau, O angau, paham buost mor greulon?
Paham nad aet heibio i fangre mor gu?
Paham y dadweiniaist dy gleddyf i daro,
Un ydoedd bob amser mor anwyl i ni?—
Ond byddar yw angau i hiraeth a galar,
Ni wrendy ar gwynion trigolion y llawr,
On'te ni fuasai ein MEISTRES JONES anwyl,
Yn gaeth o tan gloion y beddrod yn awr.

Ein chwaer 'madawedig yn ol y gorchymyn,
Wnaeth gofio'i Chreawdwr yn moreu ei hoes,
Yn ardal Llanwrda, o fewn i wlad Myrddin,—
A'i hoffder oedd darllen am Iesu a'i Groes;
Ar ol iddi fyned i'r stâd briodasol,
Y Beibl oedd rheol ei bywyd o hyd,
Hwn ydoedd ei chwmpawd mewn stormydd o drallod,
A llewyrch i'w llwybrau 'n anialwch y byd.

Cadd bump o anwyliaid i'w magu i fyny,
Sef Margaret, a Dafydd, a James, nghyd âg Ann;
Elizabeth hefyd, yr ie'ngaf o'r teulu,—
Gwnaeth drostynt bob amser yn ffyddlon ei rhan;
Cynghorai hwy'n ddyfal i gadw rhag pechod,
A 'mofyn am Iesu yn Geidwad mewn pryd,
Gweddiai'n daer drostynt am gymorth o'r nefoedd,
I'w cadw rhag rhedeg i rysedd y byd.

Dioddefodd ei chystudd yn hynod o dawel,
Heb rwgnach yn erbyn trefniadau y nef,
Yn nghanol ei phoenau clodforai ei Cheidwad,
A llwyr ymfoddlonai i'w 'wyllys fawr Ef;
Cyfeiriai yn aml at eiriau y Salmydd,
(Er bod mewn mawr boenau yn hynod a wael),
Sy'n dweyd fod y duwiol yn galw ei Brynwr,
Mewn amser cyfaddas, tra galler ei gael.

A phan oedd yn teimlo ei thraed fel yn oeri,
Yn rhydiau yr afon,—mor hyfryd pryd hyn
Adroddai ei theimlad, a'i llygad yn canfod
Goleuni nefolaidd trwy gaddug y glyn;
Canfyddai ei Cheidwad, cyfarchai e'n siriol,
"O Iesu fy Mhrynwr, rho i mi dy hedd,
A phan y dyhunaf yn lân ar dy ddelw,
Digonir fy enaid, gan degwch dy wedd."

Ei phriod galarus sydd heddyw mewn trallod,
'Rol colli cydmares a garai mor fawr;
Hwy fuont yn cyd-rwyfo yn hir ar fôr bywyd,
Mae wedi ei adael yn unig yn awr:
Awyrgylch ei deimlad sy'n ddu a chymylog,
Rhyw wâg ac afluniaidd i'w olwg yw'r byd,—
O cofia y geiriau, "Mae Barnwr y gweddwon
Yn aros yn un a'i addewid o hyd."

A chwithau, Blant anwyl, sydd heddyw'n amddifaid,
Yn wylo'n alarus 'rol colli eich mam,
O cofiwch fod Tad yr Amddifaid yn aros,
Yn barod i'ch noddi rhag cwrdd ag un cam;
O peidiwch a wylo fel rhai sydd heb obaith,
Ond cadwch yn agos at Iesu o hyd,
Ac yna cewch gwrddyd eich mam mewn dedwyddwch,
Yn nghwmni eich Ceidwad 'nol gadael y byd.

Yn hyn ymgysurwn,—ni chollwyd mo honi,
Na dim ond y rhan farwol a rowd yn y bedd,
Mae'r enaid yn ddiogel yn nghwmni yr Iesu,
Ar fryniau Caersalem yn moli mewn hedd;
Mae gadael y ddaear yn enill tragwyddol,
I'r sawl fo'n ymddiried yn unig Fab Duw;
Ac nid yw gwaith angau ond brysio'n symudiad,
O fyd y gofidiau i'r nefoedd i fyw.

*Dowlais.* THOS. DAVIES (*Ceiriosydd*).

X2053Φ 0876